

PALASU HWYL

**BLE GALLAF GREU  
FY MHALAS HWYL?**



## BLE GALLAF GREU FY MHALAS HWYL?

**Unrhyw le.** Ar ddiwedd y ddogfen hon, gallwch weld rhestr o rai o'r mathau o leoedd sydd wedi bod yn gartref i Balasau Hwyl dros y chwe blynedd ddiwethaf. Mae llawer o Balasau Hwyl yn digwydd ar draws nifer o leoliadau, gan olygu na fu'n rhaid i unrhyw leoliad unigol wneud yr holl waith.

Mae'n bosib bod gennych gysylltiad â lleoliad posib yn barod, felly dechreuwch gyda hynny. Meddyliwch yn ystywth hefyd, mae Palasau Hwyl wedi digwydd mewn rhai lleoliadau anarferol iawn, gan gynnwys goleulog yn 2015, cartref gofal yn 2016, fferi yn 2017, dôl yn 2018 a maes y gad yn 2019. Mae nifer o Balasau Hwyl wedi digwydd mewn siopau gwag neu dafarndai lleol.

Os gallwch ddod o hyd i leoliad sydd ar agor i'r cyhoedd yn barod, mae'n debygol na fydd angen i chi boeni'n ormodol am drwyddedau neu yswiriant. Os oes gennych eich llygad ar rywle mwy anarferol, mae'n bosib y bydd angen i chi ddelio ag ychydig yn fwy o waith papur - ond peidiwch â chael eich digalonni.

## SUT YDW I'N CYSYLLTU Â LLEOLIAD SYDD EISOES YN BODOLI?

Byddwch yn eofn. Os oes gan y lleoliad wefan dyna lle da i ddechrau, neu galwch heibio a gofynnwch bwy y dylech siarad â nhw. Ydych chi'n nabod-rhywun-sy'n-nabod-rhywun yn y lleoliad? Weithiau gall pencadlys Palasau Hwyl helpu i'ch paru â lleoliad hefyd, gyrrwch e-bost i [hello@funpalaces.co.uk](mailto:hello@funpalaces.co.uk) neu rhowch ganiad i ni ar 0208 692 4446 est. 203 os hoffech chi gael sgwrs.

Cofiwch esbonio bod Palasau Hwyl am ddim ac os yw pawb yn gwirfoddoli, dwedwch hynny. Mae'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys lleoliadau, yn fwy tebygol o fod yn hael os ydynt yn teimlo bod pawb yn gwneud cyfraniad ac na fydd neb yn rhedeg i ffwrdd gydag elw mawr.

Yn aml mae'n rhwymedigaeth ar leoliadau a gefnogir gan arian cyhoeddus neu arian loteri (gan gynnwys y mwyafrif o ganolfannau hamdden, canolfannau celfyddydau, amgueddfeydd, etc) i ymgysylltu â'u cymunedau a gwneud rhywfaint o waith "allgymorth" (sy'n golygu annog pobl nad ydynt fel arfer yn defnyddio'r lleoliad i gymryd rhan). Mae Palasau Hwyl yn wych at y diben hwn felly mae'n bosib y byddant yn falch iawn o glywed oddi wrthyd.



## **RYDW I EISIAU DEFNYDDIO GOFOD ANGHONFENSIYNOL FEL FY LLEOLIAD. BETH YDW I'N GWNEUD?**

- Mae Artquest wedi ysgrifennu canllaw gwych i ddefnyddio siopau a gofodau gwag [yma](#).
- Mae gan Y Cinio Mawr ganllaw i gau eich stryd [yma](#).
- Ac mae'r llywodraeth wedi cynhyrchu canllaw hefyd, [yma](#).
- Mae gan Voluntary Arts set o adnoddau gwych ar gael am ddim [yma](#).

## **RWY'N RHEDEG LLEOLIAD, OND RYDYN NI'N LLAWN DOP**

Mae rhai Palasau Hwyl gwych wedi digwydd yn y gofodau rhanedig mewn lleoliadau; cynteddau, caffis, meysydd parcio a blaengyrtiau. Gall Palas Hwyl fod mor fawr neu mor fach ag y mynnwch, felly gallwch fod yn greadigol gyda'r lle a ddefnyddiwch. Dewch ynghyd â lleoliad arall sydd â gofod cyfyngedig a chrëwch Balas Hwyl sy'n cynnwys y llwybr rhwng y lleoliadau.

Ym Mhontypridd, darparodd Crewyr y Palas Hwyl deithiau ar feiciau tandem o un lleoliad i'r llall, gan fynd trwy barc lleol neu ar hyd y stryd fawr.

Yng Nghaerdydd, cynhaliodd Canolfan Mileniwm Cymru Balas Hwyl yn y cyntedd, mewn cornel o'r bwyty yn ystod yr amser tawel yng nghanol y prynhawn, ac mewn pabell wrth y Brif Fynedfa. Roedd yr holl ofodau ar agor i'r cyhoedd beth bynnag, ond nid oeddent fel arfer yn cael eu defnyddio i wneud i bethau ddigwydd.

## **OES UNRHYW BETH ARALL Y DYLWN I WYBOD?**

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi creu canllaw "gallaf wneud hwn" i drefnu digwyddiadau gwirfoddol a chymunedol [yma](#).

## **PA FATHAU O LEOEDD SYDD WEDI CREU PALASAU HWYL?**

Llawer o leoedd gwahanol ers 2014 gan gynnwys siop cigydd, ysgolion, neuaddau eglwys, labordai technegol, archifau, pyllau nofio, canolfannau celfyddydau, odyd boteli, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, goleulog, coetiroedd, encilfa awduron, siopau gwag, gerddi botanegol, sgwariau, cartrefi preswyl, caffis, theatrau, tafarndai, parciau, carafán, mynwent eglwys, fferi, nifer o drenau, o leiaf tri chastell, dôl, canolfan gymunedol, ward ysbyty, pabell, perllannau, sied, bwyty, ar-lein ac yn eu cartref eu hunain.